Taflen Ffeithiau - Ceisiadau am Dai

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch ceisiadau am dai / trosglwyddo. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n Gweithdrefn Gwynion. Gallai ein taflen ar ddigartrefedd fod yn berthnasol hefyd.

Mae gennym ni, ynghyd â chymdeithasau tai eraill sy'n gweithio yn y Sir, bolisi ysgrifenedig yn egluro sut yr ydym yn cynnig ein tai ar ôl ystyried anghenion yr ymgeiswyr.

Rhaid i ni fel Cyngor lynu at ofynion cyfreithiol llym e.e. rhaid i ni roi blaenoriaeth resymol i rai pobl yn cynnwys: pobl ddigartref; y rheiny sy'n byw mewn tai gorlawn neu dai anaddas; pobl sydd ag anghenion neu anableddau meddygol neilltuol; mae'r gofynion hyn hefyd yn berthnasol i geisiadau am drosglwyddo.

Gall cymdeithasau tai fod yn fwy hyblyg o ran i bwy y maent yn cynnig cartref. Noda ein polisi ni sut yr ydym yn penderfynu pwy sy'n derbyn cynnig o gartref gyntaf.

Gall y weithdrefn gwynion ystyried:

- A ddeliwyd yn briodol â'ch cais am gartref.
- A ydym wedi dilyn ein polisi yn briodol wrth ystyried eich cais e.e. a ydych wedi derbyn y nifer cywir o bwyntiau?
- A ydym wedi dweud wrthych sut yr ydym wedi delio â'ch cais am gartref e.e. a ydym wedi anfon llythyr atoch yn nodi'r pwyntiau a ddyfarnwyd i chi?
- A ydym wedi oedi wrth ddelio â'r newidiadau yn eich amgylchiadau yr hysbyswyd ni amdanynt gennych e.e. gofynnwyd i chi adael eich cartref.
- Pam y gallai eich cais fod wedi'i atal e.e. a ydym wedi dilyn y weithdrefn gywir os mai eich ymddygiad yw'r rheswm/rhesymau dros atal eich cais?

Ni all y weithdrefn gwynion:

- Ein gorfodi ni nac un o'r cymdeithasau tai i roi cartref i chi nac i roi cartref neilltuol yr ydych chi ei eisiau.
- Newid penderfyniad sydd wedi cael ei wneud yn briodol am eich cais am gartref.

Materion i'w cadw mewn cof:

Nid oes digon o gartrefi i bawb sy'n dymuno cael un. Gall y polisi gyfyngu ar nifer y cynigion a roddir i chi neu gyfyngu ar yr ardaloedd y gallwch eu dewis ar eich ffurflen gais.

Efallai y dymunwch ystyried cysylltu â'r cyrff canlynol i gael cyngor:

Shelter Cymru sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch tai. Gallwch gysylltu â hwy drwy ffonio **0845 075 5005** neu drwy gyrchu'r wefan www.sheltercymru.org.uk.

Cyngor ar Bopeth sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ynghylch amrywiol broblemau (yn cynnwys tai). Gallwch gysylltu â hwy drwy'r wefan www.citizensadvice.org.uk (a dewis safwe 'Cymru' ar y dudalen ddewisiadau) a nodi eich côd post i gael manylion am eich swyddfa agosaf.